**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol**
**a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2024 am 09:30, trwy gyfrwng Zoom**

**YN BRESENNOL**

Cynrychiolwyr y Cyflogwr:
Y Cynghorydd Gwynfor Owen (gadawodd am 09:45)
Dafydd Edwards, Trysorydd
Gareth Owens, Clerc Monitro

Cynrychiolwyr y Cyflogeion:

Ymgynghorwyr
Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Beccy Marfleet, Swyddog Pensiynau
Martin Morgan, Cronfa Bensiwn Dyfed (gadawodd am 10:12)
Kim Jeal, Arweinydd Technegol Pensiynau y Diffoddwyr Tân

Cofnodydd
Ellie Williams, Cynorthwyydd Gweithredol

## 1 YMDDIHEURIADAU

1.1 Cynigiwyd ymddiheuriadau ar ran RA Paul Kay a Geraint Evans, Cynrychiolydd y System Dyletswydd Ar Alwad (RDS). Derbyniwyd yr ymddiheuriadau hynny.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

## 3 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

3.1 Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2024 yn wir a chywir.

## 4 ADRODDIAD DIWEDDARU – AELODAETH Y CYNLLUN

4.1 Cyflwynodd Beccy Marfleet Adroddiad Diweddaru Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd Pensiwn Lleol am faterion cyfredol yn ymwneud â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

4.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cynnwys yr adroddiad;**

**5 ADRODDIAD DIWEDDARU – GWEINYDDWR**

5.1 Cyflwynodd Martin Morgan adroddiad gweinyddu pensiynau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) – Hydref 2024. Nod yr adroddiad oedd cynnig diweddariad ar gynnydd nifer o brosiectau oedd yn cael eu cynnal ar yr un pryd, ynghyd â darparu gwybodaeth am faterion perthnasol yn ymwneud â gweinyddu buddion y cynllun.

5.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cynnwys yr adroddiad;**

**6 DIWEDDARIAD YNGHYLCH MATERION CYFREITHIOL**

6.1 Fe wnaeth Kim Jeal, Arweinydd Technegol Pensiynau y Diffoddwyr Tân, gyflwyno ei diweddariad ynghylch materion cyfreithiol a oedd yn nodi'r amserlenni statudol a bennwyd yn sgil y newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth Cynlluniau Pensiwn y Sector Cyhoeddus, ac yn fwy penodol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Gelwir y rhain gan amlaf yn ymarferion rhwymedi pensiwn McCloud ac O'Brien (Matthews 2).

6.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cynnwys yr adroddiad**

**7 ADRODDIAD DIWEDDARAF – RHEOLI RISGIAU**

7.1 Mae'r adroddiad Rheoli Risgiau yn ceisio rhoi diweddariad i Aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol ar y trefniadau rheoli risg.

7.2 **Penderfynwyd:**

**i) Nodi cynnwys yr adroddiad**

**8 MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO AT SYLW'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

8.1 Nid oedd unrhyw faterion i'w huwchgyfeirio at sylw'r Awdurdod.

**9 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

9.1 Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 30 Ionawr 2025 am 09:30.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:22